

Oedfa Penwythnos y Gannwyll Hydref 21-23, 2016



Llyfrau Llafar Cymru

*Beti-Wyn James
Hydref 2016*

Cyflwyniad a Chefndir

Roedd Rhian Evans, llyfrgellydd yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin ar y pryd, yn dechrau colli ei golwg ganol saithdegau'r ganrif ddiwethaf. Cafodd ddau syniad - Papur Llafar Y Deillion, Caerfyrddin ym 1976 ac yna Cynllun Casetiau Cymraeg ym 1979. Y naill yn lleol, a'r llall yn wasanaeth cenedlaethol. Mae'r ddau syniad yn dal yn weithredol ac yn llwyddo hyd heddiw. Erbyn hyn mae'r cynllun casetiau, sef recordio llyfrau llafar ar gyfer deillion, y rhannol ddall a'r rhai sydd yn ei chael hi'n anodd i darllen print, wedi ei ail-lawnsio fel Llyfrau Llafar Cymru. Cadwyd meddiant o'r gwasanaeth gwerthfawr hwn yng Nghaerfyrddin gan gynnig dewis o fwy na 2000 o lyfrau sain i bron i 500 o bobl drwy Gymru.

Er derbyn grantiau hael ers ei ailsefydlu, erbyn hyn mae'n gwbl ddibynol ar roddion ac ymgyrchoedd codi arian i gynnal dau berson rhan amser a chostau gweinyddol ac ati. Mae Penwythnos y Gannwyll (Hydref 21-23) yn un ffordd o hybu'r gwasanaeth a chyfle i godi arian at sicrhau dyfodol gwasanaeth a ystyriwn yn un dra phwysig i'r rheiny na fedr wneud yr hyn yr ydych wedi ei wneud yn awr - sef gweld y geiriau uchod.

Rydym yn ddiolchgar i'r Parchedig Beti-Wyn James am lunio'r gwasanaeth hwn, un o adnoddau pwysig y Penwythnos. Diolch yn fawr iawn i chi am eich diddordeb.

Sulwyn Thomas
Cadeirydd Llyfrau Llafar Cymru

Paratoi/Nodiadau

- * Cannwyll
- * Copi o gân Tecwyn Ifan, 'Golau i'r nos'. Copi ar gael oddi wrth swyddfa Llyfrau Llafar Cymru 01267 238225 neu llyfraullafarcymru@carmarthentown.com
- * Darlleniadau - ceir yma ddewis o ddarllenedau o'r Beibl Cymraeg Newydd Diwygiedig neu beibl.net.
- * Rhifau'r emynau yng Nghaneuon Ffydd
- * Pwynt Pwer - cyflwyniad pwynt pwer ar gais. Ebostiwrch ar beti.wyn@icloud.com



Yr Oedfa

Galwad i Addoli. Salm 113:1-3

(fersiwn y Beibl Cymraeg Newydd
Diwygiedig)

(fersiwn beibl.net)

Molwn yr Arglwydd.
Molwch, chwi weision yr
Arglwydd,
molwch enw'r Arglwydd.
Bendigedig fyddo enw'r
Arglwydd
o hyn allan a hyd byth.
O godiad haul hyd ei fachlud,
bydded enw'r Arglwydd yn
foliannus.

Haleliwia!
Molwch e, weision yr
ARGLWYDD!
Molwch enw'r ARGLWYDD!
Boed i enw'r ARGLWYDD gael
ei fendithio,
nawr ac am byth.
Boed i enw'r ARGLWYDD gael
ei foli
drwy'r byd i gyd!

Gweddi

Ein Tad, caniatâ i ddisgleirdeb dy sancteiddrwydd
lewyrchu arnom yn yr oedfa hon.
Cymorth ni i ymdeimlo o'r newydd â phelydrau dy gariad
yn ein hamgylchynu,
wrth i ni blygu o'th faen mewn mawl a diolch.
Yn enw Iesu Grist, Goleuni'r Byd.
Amen.

Croeso

Croeso cynnes i chi'i gyd i'r oedfa arbennig hon.

“Gwell cynnau kannwyll na mellithio'r tywyllwch” meddai'r hen
ddihareb. Mae rhai sydd yn byw mewn tywyllwch parhaol ac yn
methu gweld geiriau ar bapur. Mae Llyfrau Llafar Cymru yn cynnig
rhywfaint o oleuni a llygedyn o obaith i'r bobl hynny â nam ar eu
golwg drwy baratoi llyfrau sain iddynt.

Cynheurn y gannwyll hon yn awr er mwyn iddi fod yn ffocws i'n
hoedfa, a hefyd yn arwydd o'n cefnogaeth i apêl Llyfrau Llafar
Cymru y penwythnos hwn - Penwythnos y Gannwyll.

Cynnau'r Gannwyll

(dweud y geiriau hyn wrth gynnau'r gannwyll 'Nid yw neb yn cynnau kannwyll ac yn ei doddi dan lestr ond yn hytrach ar gannwyllbren...')

Emyn 222 (C.Ff): 'Tyrd atom ni o grëwr pob goleuni

Llais 1: Beth sydd mor arbennig am y penwythnos hwn?

Llais 2: Mae'r penwythnos hwn wedi ei glustnodi gan Lyfrau Llafar Cymru yn Benwythnos y Gannwyll.

Llais 2: Beth neu bwy yw Llyfrau Llafar Cymru?

Llais 1: Elusen Gofrestredig sy'n darparu llyfrau sain am ddim drwy'r post neu'n ddigidol i ddeillion a phobl sy'n cael trafferth i ddarllen print . Mae mwy na 2000 o lyfrau wedi eu recordio, yn Gymraeg a Saesneg.

Llais 1: Ble mae swyddfa Llyfrau Llafar Cymru?

Llais 2: Mae swyddfa a stiwdio'r Llyfrau Llafar, sef 'Tŷ Llafar' wedi ei leoli yng Nghaerfyrddin ac mae'r holl waith yn cael ei wneud gan staff rhan amser a gwirfoddolwyr. Mae'r elusen yn dibynnu ar grantiau a chyfranaidau ariannol.

Llais 1: Beth yw pwrpas Penwythnos y Gannwyll?

Llais 2: Cyfle i gynnal gweithgaredd i godi arian i'r Llyfrau Llafar yw'r penwythnos hwn. Gwahoddir pawb sy'n cynnal digwyddiad i gefnogi'r elusen i gynnau kannwyll i ddechrau'r digwyddiad. Dyma'r union beth a wnaed gennym ni heddiw wrth ddechrau'r oedfa hon.

Llefarydd:

Mae'r gannwyll yn symbol amlwg yn y traddodiad eglwysig a cheir sawl cyfeiriad at y gannwyll yn y Beibl. Dyma ddwy enghraifft...

Yn gyntaf, rhai adnodau o 5ed bennod Efengyl Mathew, rhan o bregeth Iesu Grist ar y Mynydd. Mae Iesu yn talu terynged fawr i'w ddisgyblion drwy eu galw yn Halen y Ddaear ac yn Oleuni'r Byd.

Darlleniad: Mathew 5:13-16

Naill ai

Halen a Goleuni (*fersiwn Beibl Cymraeg Newydd Diwygiedig*)

“Chwi yw halen y ddaear; ond os cyll yr halen ei flas, â pha beth yr helltir ef? Nid yw'n dda i ddim bellach ond i'w luchio allan a'i sathru dan draed.

Chwi yw goleuni'r byd. Ni ellir cuddio dinas a osodir ar fryn. Ac nid oes neb yn goleuo kannwyll ac yn ei rhoi dan lestr, ond yn hytrach ar ganhwylbren, a bydd yn rhoi golau i bawb sydd yn y tŷ. Felly boed i'ch goleuni chwithau lewyrchu gerbron eraill, er mwyn iddynt weld eich gweithredoedd da chwi a gogoneddu eich Tad, yr hwn sydd yn y nefoedd.

Neu

Halen a golau (*fersiwn beibl.net*)

“Chi ydy halen y ddaear. Ond pan mae'r halen wedi colli ei flas pa obaith sydd i'w wneud yn hallt eto? Dydy e'n dda i ddim ond i'w daflu i ffwrdd a'i sathru dan draed.

“Chi ydy'r golau sydd yn y byd. Mae'n amhosib cuddio dinas sydd wedi ei hadeiladu ar ben bryn. A does neb yn goleuo lamp i'w gosod o dan fowlen! Na, dych chi'n gosod lamp ar ffwrdd er mwyn iddi roi golau i bawb yn y tŷ. Dyna sut dylai'ch golau chi ddisgleirio, er mwyn i bobl foli'ch Tad yn y nefoedd wrth weld y pethau da dych chi'n eu gwneud.

Daw'r ail ddarlleniad o 5ed bennod Efengyl Ioan, yn cyfeirio at Iesu yn talu teyrnged fawr iawn i Ioan Fedyddiwr.

Naill nai

Tystion i Iesu (*fersiwn Y Beibl Cymraeg Newydd Diwygiedig*)

“Os wyf fi'n tystiolaethu amdanaf fy hun, nid yw fy nhystiolaeth yn wir. Y mae un arall sydd yn tystiolaethu amdanaf fi, ac mi wn mai gwir yw'r dystiolaeth y mae ef yn ei thystio amdanaf. Yr ydych chi wedi anfon at Ioan, ac y mae gennych dystiolaeth ganddo ef i'r gwirionedd. Nid dynol yw'r dystiolaeth amdanaf, ond rwy'n dweud hyn er mwyn i chi gael eich achub: Cannwyll oedd Ioan, yn llosgi ac yn llewyrchu, a buoch chi'n fodlon gorfoleddu dros dro yn ei oleuni ef. Ond y mae gennyf fi dystiolaeth fwy na'r eiddo Ioan, oherwydd y gweithredoedd a roes y Tad i mi i'w cyflawni, yr union weithredoedd yr wyf yn eu gwneud, y rhain sy'n tystiolaethu amdanaf fi mai'r Tad sydd wedi fy anfon.

Neu

Tystiolaeth pobl am Iesu (*fersiwn beibl.net*)

“Petawn i ond yn tystio ar fy rhan fy hun, fyddai'r dystiolaeth ddim yn ddilys. Ond mae un arall sy'n rhoi tystiolaeth o'm plaid i, a dw i'n gwybod fod ei dystiolaeth e amdana i yn ddilys.

“Dyma chi'n anfon negeswyr at Ioan Fedyddiwr a rhoddodd dystiolaeth i chi am y gwir. Does dim angen tystiolaeth ddynol arna i; ond dw i'n cyfeirio ato er mwyn i chi gael eich achub. Roedd Ioan fel lamp ddisglair, a dyma chi'n mwynhau sefyll yn ei olau am gyfnod.

“Ond mae gen i dystiolaeth bwysicach na beth ddwedodd Ioan. Mae beth dw i'n ei wneud (y gwaith mae'r Tad wedi ei roi i mi ei gyflawni), yn dystiolaeth fod y Tad wedi fy anfon i.

Emyn: 871 (C.Ff) - ‘Dyro dy gariad i'n clymu’

Gweddïau o Ddiolch, Eiriolaeth, Cyffes a Maddeuant

Ein Tad, ffynhonnell goleuni,

braint mawr i ni yw cael bod yma heddiw yn gwmni o addolwyr.

Diolchwn am dy bresenoldeb Di

sy'n troi'r cwmni hwn yn oedfa

ac yn troi'r gymdeithas hon yn eglwys.

Er ein bod yn wahanol i'n gilydd, gwerthfawrogwn yn fawr y cwlwm sydd yn ein clymu'n un corff yn awr.

Ti sydd wedi ein galw ynghyd.

Ti sydd wedi creu'r munudau hyn ar ein cyfer.

Diolchwn am yr oedfa hon ar y penwythnos arbennig hwn - Penwythnos y Gannwyll.

Diolchwn am waith Llyfrau Llafar Cymru

ac am ymroddiad y gweithwyr a'r gwirfoddolwyr

i ddwyn ychydig o oleuni i fywydau'r sawl sy'n ei chael hi'n anodd gweld geiriau ar bapur.

Diolch am y gair llafar, ac am ddyfeisiadau a datblgyiadau

cyfryngau technoleg fodern i fedru sianelu'r geiriau i gartrefi unigolion ar hyd a lled y wlad.

Diolchwn am yr awydd i weld parhad a datblygiad pellach i'r cynllun er mwyn dod â boddhad a bendith i nifer eto i'r dyfodol.

Cyfnod o dawlelwch neu gyd-ganu rhif 799 (C.Ff) 'O Dduw, clyw fy nghri'. Cymuned Taize.

Gweddïwn o Dduw dros ein byd,

a thros y sawl y mae tywyllwch yn eu hamgylchynu heddiw.

Iesu, Goleuni'r Byd, tyrd yn dy gariad lle mae anwybodaeth, ansensitifrwydd a hunanoldeb wedi chwalu cymuned;

Iesu, Goleuni'r Byd, tyrd yn dy ryddid i'r manau lle mae anghyfiawnder a gorthrwm wedi llethu ysbryd dy bobl;

Iesu, Goleuni'r Byd, tyrd yn dy heddwch i'r manau lle mae drwgdybiaeth, gwrthdaro a rhyfel yn herio dy ddaioni.

Dilea ddallineb cenhedloedd a phobloedd

fel y cânt gerdded yng ngoleuni cariad.

Cyfnod o dawlelwch neu gyd-ganu rhif 799 (C.Ff) 'O Dduw, clyw fy nghri'. Cymuned Taize.

Cyffeswn ein beiau ger dy fron o Dduw.

Ein hanufudd-dod.

Ein hawydd i ddilyn ein dymuniadau trachwantus ein hunain.

Ein dallineb i anghenion y rhai o'n hamgylch.

a'n byddardod i dy lais a'th ewyllys Di ar ein cyfer.

Arglwydd, maddau ein beiau.

At bwy arall y gallwn ni droi? Pwy arall fyddai yn fodlon ein derbyn am yr hyn yr ydym, ac eto'n dal i'n caru, ond ti dy hun.

Diolch am dy gariad a'th ras atom.

Rho nerth i ni edifarhau, a bod yn dystion mwy ffyddlon i ti.

Cyfnod o dawlelwch neu gyd-ganu rhif 799 (C.Ff) 'O Dduw, clyw fy nghri'. Cymuned Taize.

Cyflwynwn ein gweddïau yn enw Iesu Grist, ein Harlgwydd a'n

Gwarddwr. Unwn i weddio'r Weddi a ddysgodd Iesu i'w ddisgyblion ... Ein Tad.

Cân Penwythnos y Gannwyll: *Cyfle i wrando ar 'Golau i'r nos'.*

Tecwyn Ifan

Emyn: 791 (C.Ff) *'Tydi a wnaeth y wyrth o Grist fab Duw'*

Myfyrdod

Hoffwn eich gwahodd chi i gyd i gau eich llygaid am un eiliad neu ddwy. Wrth gau ein llygaid, mae'r cwbl yn dywyll.... *(oedi am ychydig eiliadau)* Diolch! Cewch agor eich llygaid nawr!

Hen ddywediad a fathwyd gennym ni'r Cymry yw dweud ei bod wedi 'mynd yn dywyll' ar berson sydd wedi colli ei olwg.

Mae Llyfrau Llafar Cymru yn cynnig gwasanaeth sydd yn dod â gwedd gadarnahol i fywyd y deillion. Nid siarad am dywyllwch a wnânt ond am oleuni. Y wedd gadarnhaol a gobeithiol hon yw

ffocws y penwythnos hwn o godi ymwybyddiaeth o waith Llyfrau Llafar Cymru.

Wrth feddwl am oleuni sy'n drech na thywyllwch, pa well symbol i'w ddefnyddio ond y symbol o gannwyll. Er nad ydym ni yn dibynnu ar y defnydd o ganhwyllau yn ein cartrefi gymaint ag yr oedd ein cyndadau yn ei wneud, eto, mae canhwyllau a chynnau canhwyllau yn rhan o fywydau nifer o hyd.

Mae rhai yn gweld gwerth i gynnu canhwyllau yn eu catrefi sy'n rhyddhau persawr arbennig a bod gan yr aroglau hynny eu swyddogaeth eu hun, er enghraifft mae rhai yn gymorth i ni ymlacio. Defnyddiwn ganhwyllau ar amryw o achluron arbennig. Nid yw'r un gacen pen-blwydd yn gyflawn heb ganhwyllau arni!

Symbol o oleuni yw'r gannwyll, ac mae'r gannwyll wedi cael lle erioed ymhlith symbolau'r eglwys.

Yn yr Eglwys Ddwyreiniol, cynheuir tair kannwyll i arwyddo'r Drindod Sanctaidd, y Tad, y Mab a'r Ysbryd Glan. A hefyd, toddir dwy gannwyll i mewn i'w gilydd i arwyddo undod y ddwy natur, hynny yw, y natur ddwyfol a'r natur ddynol yng Nghrist. Yn yr Eglwys Brotestannaidd, mae'r gannwyll yn symbol o'r goleuni a lewyrchodd yn y byd gyda dyfodiad Crist.

Wrth feddwl am y gannwyll, fe gofiwn fod y Ficer Prichard wedi ysgrifennu *Canwyll y Cymry* er mwyn goleuo ei gyd Gymry ym materion moes a ffydd. Llyfr y Ficer oedd y gannwyll, ond ceir adnod yn y Testament Newydd sy'n sôn am berson, ac nid llyfr, fel Cannwyll. Ioan Fedyddiwr oedd y person hwnnw, a Iesu ei hun sydd yn disgrifio Ioan fel '*cannwyll a oedd yn llosgi ac yn llewyrchu*' (Ioan 5:35).

Mae Ioan yn gymeriad pwysig iawn yn nrama fawr yr Efengyl. Roedd yn bregethwr poblogaidd a grymus, a lluo o bobl o bob man yn dod i wrando arno. Roed Ioan yn ddyn arbennig. Fe gollodd ei gynulleidfa i un arall, i'r Proffwyd newydd, sef Iesu o Nasareth. Ond yn wahanol i ni, nid oedd elfen o eiddigedd yn perthyn i Ioan, yn wir, roedd yn llawen bod Un mwy nag ef wedi dod ar ei ôl.

Ac am loan, y gŵr mawrfrydig hwn, y dywed Iesu ei fod fel kannwyll yn llosgi ac yn llewyrchu. Ond beth yw ystyr y gymhariaeth hon?

1. Yn gyntaf, nid yw'r kannwyll yn tynnu sylw ati'i hun.

Does neb ohonom yn cynnau kannwyll er mwyn gweld y kannwyll. Cynnau kannwyll a wnawn er mwyn gweld rhywbeth neu rywun arall. A dyna yn union a wnaeth loan Fedyddiwr. Roedd loan yn pregethu bod oes newydd ar wawrio, bod y Meseia yn dod, a bod angen iddynt edifarhau am eu beiau.

Cafodd pregethu loan Fedyddiwr gymaint o effaith ar y bobl fel y penderfynodd rhai o'r Iddewon yn Jerwsalem anfon cenhadon at loan er mwyn gofyn iddo pwy yn union ydoedd.

Ar ddechrau pennod gyntaf Efengyl loan, fe ddywedir bod loan yn ŵr wedi ei anfon o Dduw i dystiolaethu am y Goleuni. Nid loan oedd y goleuni, ond daeth yn dyst i'r goleuni.

Ar yr adegau hynny pa fydd y trydan yn methu, cawn ein taflu i mewn i'r tywyllwch, a da o beth yw bod gennym ganhwyllau wrth law rhag ofn y bydd toriad yn y trydan. Ond, does fawr o bwynt cael canhwyllau yn y tŷ oni bai ein bod yn mynd ati i'w cynnau! Dyw'r canhwyllau'n dda i ddim heb eu cynnau.

Ac ni fyddai loan wedi medru bod yn dyst i'r Goleuni, oni bai ei fod ef yn gyntaf a'i galon wedi ei chynnau gan Dduw.

Ni ellir bod yn dyst i'r goleuni, heb fod y goleuni ynom. Ni allwn fod yn dystion i'r goleuni oni bai bod Duw wedi cynnau kannwyll ynom ni.

Mewn sgwrs â Rhian Evans, sylfaenydd Papur Llafar y Deillion yn Sir Gaerfyrddin, ac aelod ffyddlon yng Nghapel Y Priordy, dywed Rhian droeon ei bod yn gweld lluniau. Mae'r meddwl yn creu lluniau hyd yn oed yn y tywyllwch.

Wrth wrando ar y llyfrau llafar yn cael eu darllen, mae'r geiriau yn creu lluniau ac yn dod â goleuni i fywydau'r sawl nad ydynt yn medru gweld y geiriau fel chi a fi.

Y mae llais y llyfr llafar yn cynnau kannwyll, ac yn taflu goleuni sy'n drech na'r tywyllwch.

Diolch i Dduw am y cynllun hwn, ac am gynnu kannwyll yng nghalonau llu o wirfoddolwyr ffyddlon i roi o'u doniau a'u hamser er mwyn dod â goleuni i fywydau eraill.

2. Yn ail, mae'r kannwyll yn rhoi ei hunan.

Swyddogaeth y kannwyll yw rhoi ei hunan. A dyna yw ystyr y geiriau '*kannwyll yn llosgi ac yn llewyrchu oedd loan.*' Wrth roi ei hunan, yr hyn a wna'r kannwyll yw aberthu ei hunan. Mae gwêr y kannwyll yn toddi wrth iddi losgi ac mae corff y kannwyll yn mynd yn llai wrth iddi daflu mwy o oleuni. Mae'r kannwyll fel petai yn aberthu ei hunan.

Ystyr y gair 'aberth' yw gollwng gafael. Mae'r Apostol Paul yn '*ymbil arnoch frodyr i'ch offrymu eich hunain yn aberth byw sanctaidd a chymeradwy gan Dduw...*'

Rydym yn barod iawn i aberthu ein pethau. Mae nifer o wirfoddolwyr yn aberthu oriau o'u hamser er mwyn darllen cylchgronau a llyfrau yn stiwdio Llyfrau Llafar Cymru, a diolch am bob un ohonynt, ac eraill, ledled ein gwlad a'n byd sy'n aberthu eu doniau a'u hamser, eu harian a'u heiddo er mwyn cefnogi elusennau o bob math.

Ond pa mor barod ydym i aberthu ein hunan; i roi ein hunain, a gollwng gafael arnom ni'n hunain er mwyn gadael i Dduw afael ynom? Mawredd Crist oedd iddo ollwng gafael arno'i hun, drwy ddod fel gwas, a marw trosom ni.

Mae hanes yr eglwys yn llawn o bobl sydd wedi rhoi eu hunain i wasanaeth Crist. Mae'r 'rhoi' hwnnw yn golygu rhoi ein bywyd yn gyfan gwbl iddo. Ystyrir unrhyw act o ewyllys da yn enw Crist,

boed mewn cymwynas a gweithred dda, mewn ffyddlondeb a gweddi, neu mewn punnoedd a cheiniogau yn estyniad ar y 'rhoi', wedi i Dduw fugeilio ein cydwybod a'n calonnau a'u troi yn gyfryngau tosturi, a hynny nid i dynnu sylw aton ni ein hunain, na'n gweithredoedd ein hunain.

3. Yn drydydd, mae'r gannwyll yn rhoi o'i hunan.

Er bod yr haul fel y lleuad yn rhoi goleuni, un haul ac un lleuad sydd. Ond mae nifer o ganhwyllau, a phob un yn wahanol i'w gilydd. Beth bynnag yw eu lliw a'u maint, mae pob kannwyll yn rhoi ei goleuni ei hunan.

Ac yn debyg iawn i ganhwyllau, rydym ni i gyd yn wahanol iawn i'n gilydd a chennym ddoniau sy'n amrywio. Nid yr un ddawn neu dalent a roddwyd i bawb ohonom.

Doniwyd rhai i fod yn oleuadau mawr yn y byd, ond er yn oleuni mawr, nid yw hynny yn eu hesgusodi rhag bod yn oleuadau bach chwaith. Mae'r goleuadau bach yn rhai pwysig iawn. Po fwyaf o ganhwyllau bach sydd, y mwyaf i gyd o oleuni sydd.

Pe bai hi'n nos arnom yn awr, a ninnau heb drydan yn y Capel hwn, ac yn gorfod dibynnu ar bawb i ddod â'i gannwyll ei hun i'r oedfa, pa mor olau fyddai'r Capel hwn tybed? Mae'n sicr y byddai ambell gornel tywyll yn y capel; yn y sedd fawr, gydag ambell ddiakon yn eisiau; yn yr festri gydag ambell blentyn yn eisiau o'r Ysgol Sul; corneli tywyllwch ar lawr y capel ac mewn ambell fan o dan y galeri am fod ambell aelod yn eisiau. Dyna braf fyddai gweld pob cornel wedi ei oleuo, a phob un yn rhoi o'i ddawn a'i allu ei hun yng ngwasanaeth yr eglwys.

Diolch fod yna gorneli yn ein byd sydd wedi eu goleuo oherwydd awydd rhai i roi o'u doniau er mwyn bod yn oleuadau bach.

Dyma'n cyfle ni heddiw i wneud ein rhan fel goleuadau bach i ddod ag ychydig o oleuni i dywyllwch y sawl nad ydynt yn medru gweld geiriau ar bapur fel chi a fi.

Mae Llyfrau Llafar Cymru bob amser yn chwilio am wirfoddolwyr i roi o'u doniau. Cysylltwch â'r swyddfa yng Nghaerfyrddin os oes awydd arnoch i gynorthwyo. Ond yn y cyfamser, medrwn oll ymarfer y ddawn o 'roi' heddiw wrth gefnogi Penwythnos y Gannwyll.

Pe bai rhywun yn gofyn i chi sut hoffech chi gael eich cofio, beth tybed fyddai'ch ateb? Mae'n siŵr gen i byddai'r atebion yn amrywio'n fawr. Ond wedi ystyried y cwestiwn, mae'n anodd meddwl am deyrnged uwch y gellid ei rhoi i neb ohonom na'r un a roddwyd i Ioan 'Cannwyll oedd yn llosgi ac yn llewyrchu'.

Gweddi o ymgysegrïad

Cymorth ni o Dduw i ddefnyddio holl amgylchiadau ein bywydau i wneud daioni.

siom i feithrin amynedd,
llwyddiant i feithrin diolchgarwch,
pryder i feithrin gwroldeb,
clod i feithrin gwyleidd-dra,
pleserau i feithrin cymedroldeb,
poenau i feithrin dygnwch,
a thywyllwch i feithrin goleuni.
Amen

Cyhoeddiadau/Diolchiadau a Chasgliad tuag at waith Llyfrau Llafar Cymru. *(Cyfle arall posibl, i wrando ar Gân Penwythnos y Gannwyll, 'Golau i'r nos' yn ystod y casgliad.)*

Eryn: 767 (C.Ff) *'Cymer Arglwydd f'einioes i'*

Gweddi i gloi

Boed i'r byd barhau i'n rhyfeddu,
i gariad barhau i'n synnu,
i fywyd barhau i'n hudo,
i ffydd barhau i'n cynnal,
a boed i Dduw barhau i deithio gyda ni,
yn awr a hyd byth. Amen





Llyfrau Llafar Cymru
Tŷ Llafar, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Jôb,
Caerfyrddin SA31 3HB

Rhif ffôn: 01267 238225

ebost: llyfraullafarcymru@carmarthentown.com

www.llyfraullafarcymru.org.uk

Facebook: Llyfrau Llafar Cymru
Facebook: Penwythnos Y Gannwyll

Trydar: LlyfrauLlafarCy